



Adroddiad sbotolau ar y
ddarpariaeth addysg i blant
a phobl ifanc mewn lleoliadau
gofal iechyd yng Nghymru



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

Rhagair

gan Rocio Cifuentes MBE, Comisiynydd Plant Cymru

Mae gan bob plentyn hawl i dderbyn addysg o dan erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yng Nghymru, mae'r hawl gyfreithiol i gael addysg yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd.

Dylai plant ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi i dderbyn darpariaeth briodol sy'n diwallu eu hanghenion addysgol. Gallai hynny fod yn yr ysbyty, gartref, neu mewn lleoliad arall.

Fodd bynnag, roedd gwybodaeth a gafwyd gan fy swyddfa yn 2021 yn awgrymu nad oedd pob plentyn mewn gwirionedd yn cael cyfleoedd i ddysgu pan oedden nhw'n derbyn gofal fel cleifion mewnol. Dysgon ni fod rhai plant heb gael cynnig addysg o gwbl, er eu bod yn ddigon iach i ddysgu ac yn awyddus i wneud hynny. Roedd eraill yn cael darpariaeth gyfyngedig iawn.

Penderfynodd fy nhim a minnau fod angen archwilio hyn ymhellach. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi gwrandao ar brofiadau plant a phobl ifanc, ac wedi ymgysylltu â lleoliadau gofal iechyd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydyn ni hefyd wedi ymchwilio i ddulliau gweithredu mewn cenedloedd eraill.

Fe glywsom ni am bwysigrwydd addysg mewn cyd-destun gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys cadw i fyny gyda gwaith ysgol a chymwysterau wrth gwrs, ond hefyd dysgu i fwynhau, gallu canolbwyntio ar rywbeth heblaw salwch, a chael gweithgarwch ac ymgysylltiad y tu allan i'r ward.

Amlygodd athrawon mewn lleoliadau gofal iechyd hefyd rôl dysgu ac addysgu wrth greu strwythur beunyddiol, adeiladu cydberthynas, a chadw plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â chymuned eu hysgol, lle bynnag y bo modd.

Ond mae ein gwaith ymchwil wedi dangos i ni nad yw pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'w hawl i gael addysg o dan CCUHP.

Mae rhai plant mewn lleoliadau gofal iechyd yn derbyn addysg sy'n datblygu eu doniau, eu sgiliau ac yn cefnogi eu llesiant. Ond mae'r darlun ar draws Cymru yn amrywio'n fawr o ran cyllido addysg mewn cyd-destun gofal iechyd, yn ogystal â'r oriau o addysg sy'n cael eu darparu, a mae gan blant o Gymru sydd angen aros mewn lleoliad gofal iechyd lai o hawl i dderbyn addysg o gymharu â phlant yn Lloegr.

Dyw hynny ddim yn deg. Mae angen i blant sy'n gorfod cael cyfnodau estynedig o ofal fel cleifion mewnol, gofal mynych fel cleifion allanol, neu sy'n gorfod aros gartref oherwydd eu hanghenion iechyd hefyd gael pob cyfle i ddatblygu a dysgu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae angen mwy o gefnogaeth ar blant, nid llai!

Ond rydyn ni wedi clywed enghreifftiau lle nad yw'r system yn gweithio fel y dylai i blant a theuluoedd. Dywedodd un rhiant bod ysgol ei phlentyn wedi ei gwneud hi'n ymwybodol o fil gaethon nhw yn dilyn sesiwn o ddysgu cafodd ei phlentyn yn ystod arhosiad byr yn ysbyty. Roedd hyn wedi ei synnu a gwneud iddi deimlo'n bryderus a chwithig. Roedd hi hefyd wedi difaru'r ffaith ei bod hi wedi derbyn cynnig yr ysbyty am sesiwn o ddysgu yn y lle cyntaf. Mae angen llai o bethau ar rieni i boeni amdany'n nhw yn y sefyllfa yma, nid mwy.

Mewn esiampl arall, disgrifiodd un lleoliad y buon ni'n siarad â nhw fod plentyn wedi derbyn peth addysg yn y gwely oherwydd eu bod yn methu mynd lawr i ystafell ddosbarth benodedig y lleoliad. Yna gwrthododd awdurdod lleol y plentyn dalu am yr addysg a gafodd y plentyn oherwydd bod yr addysg honno wedi digwydd tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bod hynny'n torri eu cytundeb cyllido.

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i wneud yn well dros blant sydd angen aros mewn ysbyty, lleoliad gofal iechyd arall neu gartref oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Mae angen sefydlu disgwyliaid cliriach gydag awdurdodau lleol, fel bod plant yn gallu cael mynediad at raglen lawn o ddysgu pan fo hynny er eu lles pennaf.

Mae lleisiau'r plant eu hunain yn yr adroddiad hwn yn dweud wrthyn ni pa mor bwysig yw hynny:

Fe roddodd e rywbeth i fi edrych ymlaen ato pan fydda i'n dost yn yr ysbyty.

Mae'n golygu mod i'n cael y gwaith diwedddara o'r ysgol brif ffrwd, fel bod llai o straen a phryder ynghylch dychwelyd.

Fe wnaeth gymaint o wahaniaeth o ran gwneud i mi deimlo'n 'normal' ar y diwrnodau pan fuon ni'n cael y sesiynau tiwtora gyda'n gilydd.

Diolch yn fawr

Hoffwn ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc a rannodd eu profiadau gyda ni, a'r holl lleoliadau y buon ni'n ymgysylltu â nhw am eu cyfraniadau, ac am gefnogi a galluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y gwaith ymchwil yma.

Mae gan blant o Gymru sydd angen aros mewn lleoliad gofal iechyd lai o hawl i dderbyn addysg o gymharu â phlant yn Lloegr.

Cynnwys

Rhagair gan Rocio Cifuentes MBE	2
Prif Ganfyddiadau	7
Crynodeb Argymhellion	7
Cyflwyniad	8
Cyd-destun y sefyllfa	8
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)	8
Y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru	9
Canllawiau Statudol	9
Cyd-destun ehangach y Deyrnas Unedig	11
Methodoleg	11
Themâu allweddol o'r ymchwil	12
Gwerth addysg: Beth ddywedodd plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrthyn ni	12
Amrywiadau o ran cyllid a'r oriau o addysg sy'n cael eu darparu	15
Gwaith amlasiantaeth a chyfathrebu	19
Pontio i'r gymuned	19
Ymwybyddiaeth bod plentyn yn gymwys i gael y ddarpariaeth	20
Tegwch i bob dysgwr	21
Addysg ôl-16	21
Cefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol	21
Darpariaeth Gymraeg	22
Amgylchedd dysgu	23
Addysg gartref oherwydd anghenion gofal iechyd	24
Argymhellion	25
Atodiad: ymarfer ar draws Ewrop	29

Nid oes lawer o gysondeb o ran sut mae'r bobl berthnasol yn cael eu hysbysu pan fydd plentyn yn gymwys i gael addysg mewn lleoliad gofal iechyd.

Prif ganfyddiadau

- Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r addysg maen nhw'n derbyn mewn lleoliadau gofal iechyd am amrywiaeth o resymau. Mae cario ymlaen gyda'u hastudiaethau yn bwysig, ond mae'r proses a phleser o ddysgu hefyd yn gallu tynnu eu sylw oddi wrth eu triniaeth feddygol
- Gall amrywiaeth o ran cyllido addysg ar draws Cymru arwain at brofiadau anghyfartal i blant. Mae gan leoliadau gofal iechyd drefniadau ariannu gwahanol gydag awdurdodau lleol, gan arwain at anghysondebau ym mhrofiadau plant ar lefel genedlaethol. Mae awdurdodau lleol yn ariannu symiau amrywiol o ran oriau dysgu yr wythnos, ac nid oes dealltwriaeth gyson o faint o gyllid a ddylai fod ar gael i blentyn.
- Mae awydd ymhlith awdurdodau lleol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am gyfathrebu amlasiantaethol mwy effeithiol. Nid oes lawer o gysondeb o ran sut mae'r bobl berthnasol yn cael eu hysbysu pan fydd plentyn yn gymwys i gael addysg mewn lleoliad gofal iechyd, a dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bod modd gwella cyfathrebu er mwyn helpu plentyn i drosglwyddo'n ôl i'r gymuned.
- Mae rhai pobl ifanc yn fwy tebygol o golli allan ar ddarpariaeth addysgol. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc dros 16 oed, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a phobl ifanc sy'n dymuno derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Crynodeb Argymhellion

Argymhelliad allweddol

1. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu dyletswyddau cyfreithiol awdurdodau lleol i ddarparu addysg **amser llawn** i blant sydd, o achos salwch, fel arall na fyddai'n derbyn addysg addas. Mae angen i'r canllaw fod yn glir bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant Cymru yn derbyn yr un hawliau cyfreithiol â phlant ar draws y DU.

Argymhellion pellach

2. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio y canllaw ar gyfer darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), i gynnwys disgwiliad y bydd awdurdodau lleol yn hwyluso cyflwyno cynnig sy'n cyfateb i addysg amser llawn i blant sy'n derbyn gofal iechyd parhaus neu aciwt, ac eithrio lle nad yw hynny er lles pennaf y plentyn.
3. Rydw i'n argymhell sicrhau bod dyletswydd ar arweinwyr EOTAS ym mhob awdurdod lleol i fynd ati fel mater o drefn i gasglu barn plant ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn.
4. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau ariannu cyfredol ar gyfer addysg mewn lleoliadau gofal iechyd ar draws pob Awdurdod Lleol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i adeiladu achos arfer gorau fydd yn golygu bod modd gwreiddio dull cyffredinol o ymdrin â chyllido ar draws Cymru

5. Rwy'n argymhell bod cynlluniau pontio ac ailintegreiddio yn cael eu cynnwys mewn canllawiau i hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng addysg, iechyd ac awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn lleoliad gofal iechyd, ac a fydd yn dychwelyd i'w trefniadau addysg blaenorol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cynhyrchu ar y cyd â phlant a phobl ifanc.
6. Rwy'n argymhell bod y canllaw yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a sicrhau dilyniant ym myd addysg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd, ym mha leoliad bynnag y caiff yr addysg ei darparu.
7. Rwy'n argymhell bod y fframwaith Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed mynediad i ddarpariaeth addysg pan fyddan nhw'n gleifion mewnol mewn lleoliad gofal iechyd.
8. Rwy'n argymhell bod asesiad effaith integredig (gan gynnwys asesiad effaith ar hawliau plant) yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canllawiau, gan gynnwys anghenion addysg plant anabl a phlant sydd eisiau derbyn addysg ôl-16.
9. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau i alluogi plant a phobl ifanc i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg mewn lleoliad gofal iechyd. Dylid cynnwys hyn mewn fframweithiau comisiynu.
10. Rwy'n argymhell bod y canllawiau yn cael eu diweddarau i ystyried yn benodol anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn ysbyty neu leoliad gofal iechyd.

Cyd-destun y sefyllfa

Rydyn ni'n gwybod bod plant sydd ag anghenion iechyd hirdymor yn gallu treulio cryn amser y tu allan i'w lleoliad addysgol nodweddiadol, ac y gall bod yn absennol o fyd addysg effeithio ar ddeilliannau iechyd a llesiant^{1,2}. Mae hynny'n amlygu pa mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u haddysg: mae cynnal y cysylltiad â'u dysgu yn helpu i optimeiddio eu llesiant cymdeithasol ac emosiynol³. Os na fedran nhw wneud hynny, rydyn ni'n gwybod am yr effeithiau posibl – gall plant mewn lleoliadau gofal iechyd gael eu gadael yn teimlo'n ynysig ac yn ofni colli tir o gymharu â'u cyfoedion os na fyddan nhw'n cadw mewn cysylltiad â'u dysgu⁴.

Mae datblygiadau meddygol yn golygu bod nifer y plant sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn cynyddu.¹ Mae data diweddar yn amlygu bod 18% o ddisgyblion ysgol uwchradd yng Nghymru yn sôn am fyw gyda chyflwr iechyd hirdymor neu anabled, sy'n golygu bod addysg plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn mynd yn fwyfwy pwysig⁵.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu holl swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sut dylai gyflawni'r ddyletswydd hon mewn Cynllun Hawliau Plant⁶.

Mae ystyriaethau pwysig ynghylch addysg plant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal iechyd, ac amlinellir y rhain yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Maen nhw'n cynnwys:

- **Erthygl 2 (dim gwahaniaethu yn eu herbyn):** yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o gamwahaniaethu
- **Erthygl 12 (parchu barn y plentyn):** hawl y plentyn i fynegi barn ar bopeth sy'n effeithio arnyn nhw
- **Erthygl 23 (gofal arbennig i blant ag anabledau):** yr hawl i blentyn ag anabled gael bywyd llawn ac annibyniaeth i chwarae rhan weithredol yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal
- **Erthygl 28 (hawl i gael addysg):** mae gan bob plentyn yr hawl i addysg
- **Erthygl 29 (nodau addysg):** yr hawl i gael mynediad at addysg sy'n datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn hyd eithaf eu gallu.

¹Mintz, J., Palaolagou, I. and Carroll, C. (2018). A review of educational provision for children unable to attend school for medical reasons. University College London. [online]. <https://www.hhe.nottingham.sch.uk/wp-content/uploads/2019/10/A-review-of-educational-provision-hospital-and-home-education-services-UCL-2018.pdf>.

²Vanneste, Y, Loo, M., Feron, F, Rots – de Vries C, Goor, L.D., (2016). Attitudes towards Addressing Medical Absenteeism of Students: A Qualitative Study among Principals and Special Education Needs Coordinators in Dutch Secondary Schools. *PLoS ONE* 11(2): e0148427. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0148427>.

³Gilmour, M., L. Hopkins, G. Meyers, C. Nell, and N. Stafford. (2015). School Connection for Seriously Sick Kids. Who are They, how do we Know What Works, and Whose job is it? *Canberra, Australia: Australian Research Alliance for Children and Youth*. https://www.aracy.org.au/publications-resources/command/download_file/id/331/filename/School-connection-for-seriously-sick-kids-full-report-web.pdf

⁴Sextou, P. (2021). Theatre in paediatrics: can participatory performance mitigate educational, emotional and social consequences of missing out school during hospitalisation? *Research in Drama Education: The Journal of Applied Theatre and Performance*, pp.1–18. <https://doi.org/10.1080/13569783.2021.1940914>.

⁵Page N., Angel, L., Ogada, E., Young H., Murphy S., (2023). Student Health and Wellbeing in Wales: Report of the 2021/22 Health Behaviour in School-aged Children Survey and School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey. Cardiff University. <https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2023/04/SHRN-2021-22-National-Indicators-Report-FINAL-en.pdf>

⁶Welsh Government (2021) Children's Rights Scheme. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/children%27s-rights-scheme-2021.pdf>

Y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg briodol i blant oed ysgol gorfodol sy'n byw yn eu hardal. Mae hynny'n cynnwys darpariaeth addysg i blant sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai, neu sy'n methu mynd i'r ysgol am resymau eraill, gan gynnwys anghenion meddygol parhaus. Cyflwynir hyn yn Adran 19A(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Newidiodd Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 adran 19 trwy gynnwys adran 19A, sy'n nodi:

- (1) Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau i ddarparu addysg briodol yn yr ysgol neu mewn man heblaw'r ysgol i blant oddi mewn i ardal yr awdurdod sydd —
 - (a) o oed ysgol gorfodol, ac a allai
 - (b) oherwydd salwch, gwahardd o'r ysgol neu reswm arall, beidio â derbyn addysg addas am gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud iddyn nhw.

Canllawiau Perthnasol

Wrth gyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol hon, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r [canllawiau statudol](#)⁷ a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017. Mae'r canllawiau hynny'n nodi'r canlynol yn 2.10.

Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o barhau'n llai na 15 diwrnod ysgol), dylai ysgol y dysgwyr ddarparu gwaith i'w gwblhau gartref, os yw cyflwr y dysgwyr yn caniatáu, a chefnogi'r dysgwyr i ddal i fyny wrth ddychwelyd. Dylai'r awdurdod lleol fod yn barod i wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn achosion lle mae'n eglur bod y dysgwyr yn debygol o fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod sylweddol, e.e. mwy nag 15 diwrnod ysgol, p'un a yw'r rheiny'n olynol neu'n gronnol yn ystod blwyddyn academaidd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen i'r awdurdod lleol wneud trefniadau o hyd os rhagwelir absenoldeb byrrach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau

⁷Welsh Government (2017) Supporting Learners with Healthcare Needs. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/supporting-learners-with-healthcare-needs.pdf>

Fodd bynnag, nid yw canllawiau 2017 yn cynnwys unrhyw wybodaeth am faint o ddarpariaeth addysg gallai neu dylai hynny gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliad gofal iechyd. Pan mae angen addysg tu allan i'r ysgol ar blentyn, y canllaw perthnasol yw'r fframwaith [Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol EOTAS Fframwaith Gweithredu](#)

Hefyd nid yw'r canllawiau wedi cael eu diweddarau i gynnwys gofynion y cwricwlwm newydd, a dydyn nhw ddim yn adlewyrchu newidiadau 2021 er mwyn diffinio ystyr 'addysg addas' i blant sydd yn yr ystyby, neu sy'n gleifion mewnol mewn lleoliad gofal iechyd arall. Nid yw'r canllawiau'n egluro'r gofynion i blant sydd angen derbyn eu haddysg gartref oherwydd anghenion gofal iechyd.

Mewn perthynas â chanllawiau statudol 2017, esboniodd papur tystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd sut roedd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i blant sy'n derbyn eu haddysg mewn lleoliad heblaw ysgol (EOTAS)⁸. Dylai cynllun gofal iechyd annibynnol (IHP) amlinellu'r gefnogaeth mae ar blentyn neu berson ifanc ei hangen, a chytunir ar hynny ar y cyd â'r plentyn neu'r person ifanc, y rhieni a'r ymarferwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn amlygu y dylai'r plant hyn gael lleoliad EOTAS i'w cefnogi: mae hynny'n cynnwys addysg mewn cyd-destun gofal iechyd. Ymhellach, cyfeirir at gynllun ailintegreiddio fel arfer da i helpu plentyn neu berson ifanc i bontio'n ôl i mewn i ddarpariaeth addysg brif ffrwd.

Yn fframwaith ar gyfer gweithredu EOTAS (*Addysg heblaw am yn yr ysgolion*) yn 2019⁹, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i 'ddatblygu canllawiau anstatudol' yn y tymor byr, 'ar ddatblygu fframweithiau comisiynu a gofynion ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth EOTAS, gan gynnwys monitro lleoliadau yn barhaus'. Ac yn y tymor hwy, bydd Llywodraeth Cymru yn 'ystyried cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu'. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y terfynau amser ar gyfer y rhain, ond rydyn ni nawr yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud y gwaith hwn. Dylai'r canllawiau ar fframweithiau comisiynu gynnwys cyfeiriad at ddysgu plant mewn lleoliadau gofal iechyd, ac at ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cynnig addysg lawn.

Mewn adroddiad ym mis Mehefin 2023¹⁰, dywedodd Estyn mai disgwyliad Llywodraeth Cymru yw 'y dylai pob disgybl, ble bynnag maen nhw'n cael ei addysgu, yn derbyn addysg amser llawn'. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud er nad yw addysg amser llawn bob amser yn briodol i'r dysgwyr, 'ni ddylai hwn fod yn benderfyniad unochrog gan yr awdurdod lleol neu'r darparwr ond gyda chytundeb y rhieni, gofalwyr a'r disgybl'. Mae Estyn yn amlinellu ei bryderon ynghylch anghysondeb prosesau awdurdodau lleol ar gyfer cytuno ar hyd lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, ac adolygu'r trefniadau. Mae hyn yn rhwystr i ailintegreiddio dysgwyr yn lwyddiannus. Mae Estyn yn argymhell bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn brydlon ac yn nodi y hyd cytunedig, rolau a chyfrifoldebau clir a dyddiad adolygu.

Felly, mae'n rhaid i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru ynghylch darparu addysg amser llawn, neu'r ddarpariaeth addysg briodol sy'n addas i'r dysgwyr unigol, gael ei nodi'n gliriach mewn canllawiau statudol i awdurdodau lleol.

⁸ Senedd Cymru (2020). Evidence paper from the Minister for Education, Welsh Government - National Assembly for Wales Children, Young People and Education Committee Inquiry into Education Otherwise than at School. <https://business.senedd.wales/documents/s99922/EOTAS%2032%20Welsh%20Government.pdf>

⁹ Welsh Government (2019). Education otherwise than at schools (EOTAS) framework for action. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/education-otherwise-than-at-school-framework-for-action-2019.pdf>

¹⁰ Estyn (2023) Equity of curriculum experiences for pupils who are educated other than at school (EOTAS). https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-06/Equity%20of%20curriculum%20experiences%20for%20pupils%20who%20are%20educated%20other%20than%20at%20school%2028EOTAS%29_0.pdf

¹¹ Department of Health and Social Care, UK Government (2015). Guidance – Hospital Education: a guide for health services. <https://www.gov.uk/government/publications/hospital-education-a-guide-for-health-services/hospital-education-a-guide-for-health-services#legal-responsibility-for-providing-education>

[hospital-education-a-guide-for-health-services/hospital-education-a-guide-for-health-services#legal-responsibility-for-providing-education](https://www.gov.uk/government/publications/hospital-education-a-guide-for-health-services/hospital-education-a-guide-for-health-services#legal-responsibility-for-providing-education)

¹² OFSTED (2018) 'Outstanding' report of Great Ormond Street hospital 2018. <https://files.ofsted.gov.uk/v1/file/2786545>

¹³ OFSTED (2018). 'Good' report of Manchester Hospital School 2018. <https://files.ofsted.gov.uk/v1/file/2778699>

¹⁴ Scottish Government (2015). Guidance on education for children and young people unable to attend school due to ill health. <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/advice-and-guidance/2015/06/guidance-education-children-unable-attend-school-due-ill-health/documents/00479700-pdf/00479700-pdf/govscot%3Adocument/00479700.pdf>

Cyd-destun ehangach y Deyrnas Unedig

Yn Lloegr mae'n gyfreithiol ofynnol bod addysg heblaw am yn yr ysgol yn amser llawn, ac eithrio lle nad yw hynny er lles pennaf y plentyn¹¹. Yng Nghymru, rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau sy'n nodi y dylai dysgwyr 'gael mynediad llawn (ein pwyslais ni) i addysg...'. Nid yw hynny'n golygu'r un peth. Mae enghreifftiau cydnabyddedig o arfer da mewn ysbytai yn Lloegr¹²¹³ yn awgrymu bod modd cyflawni'r gofyniad amser llawn hwn trwy amrywiaeth o weithgareddau dysgu yn ystod yr wythnos, a allai gynnwys elfennau o diwtora unigol, gwaith grŵp, gweithgareddau ar-lein, a dysgu hunan-arweiniol, sydd gyda'i gilydd yn creu rhaglen o addysg amser llawn. Mae hefyd yn cydnabod dwysedd tiwtora unigol, ac yn nodi bod rhaid i 'amser llawn' fod yn addas i'r plentyn a'u hanghenion.

Cyflwynir y gofyniad cyfreithiol hwn i Loegr yn Neddf Addysg 1996 yn Adran 19 3.A. Deddf Addysg 1996 hefyd yw'r gyfraith sy'n darparu sylfaen ar gyfer darparu addysg heblaw am yn yr ysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Deddf 1996 ac adran ddiwygiedig 19A yn nodi hawl gyfatebol i blant yng Nghymru gael addysg amser llawn mewn man heblaw'r ysgol.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r dyletswyddau'n ymddangos yn gyffredinol debyg i'r rhai yng Nghymru a Lloegr, gyda dyletswyddau cyfreithiol ar yr awdurdod lle mae'r plentyn yn byw i sicrhau addysg addas i'r plentyn. Yn yr Alban, mae'r ddyletswydd hon yn cychwyn ar unwaith os bydd salwch plentyn neu berson ifanc yn 'sicr neu os credir yn rhesymol y bydd yn estyn i 5 diwrnod neu fwy', ac maen nhw'n ddigon iach. Pan fydd hyd yr arhosiad yn llai clir, dylai'r ddarpariaeth addysg gychwyn ar ôl 'dim mwy na 15 diwrnod gwaith olynol neu 20 diwrnod gwaith ysbeidiol o absenoldeb'¹⁴.

Yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, rydyn ni'n cynnwys enghreifftiau o wahanol rannau o Ewrop o ddulliau gwahanol a ddefnyddir wrth gefnogi dysgwyr. Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i adolygu ymarfer o wahanol rannau o Ewrop, yn ogystal ag o fewn y Deyrnas Unedig.

Methodoleg

Trwy ein hymchwil clywon ni farn plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ar bwnc addysg mewn lleoliadau gofal iechyd.

Buon ni'n casglu data gan 18 o blant a phobl ifanc, 5-16 oed, oedd mewn lleoliad gofal iechyd yn ystod Gorffennaf ac Awst 2022. Roedden ni eisiau cael gwybod beth yw eu barn a'u teimladau am eu haddysg mewn lleoliad gofal iechyd. Fe wnaethon ni baratoi pecyn cyfranogiad penodol i gasglu eu barn, ac roedd yn cynnwys adnodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ei ddefnyddio ar ein rhan mewn sesiynau un i un gyda phlant a phobl ifanc. Fe wnaethon ni fabwysiadu'r fethodoleg benodol hon mewn ymgynghoriad â gweithwyr addysg proffesiynol, gan gymryd i ystyriaeth fanteision dull hyblyg o ymgysylltu â phlant mewn lleoliad gofal iechyd. Roedd y gweithgareddau'n cefnogi plant i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei hoffi am eu dysgu, a beth hoffen nhw weld yn newid neu'n gwella.

Mae'n bwysig cofio bod plant sydd ddim wedi gallu derbyn addysg neu sydd heb fod yn ddigon iach i gael addysg yn eu lleoliadau meddygol, neu sydd wedi methu cael mynediad at addysg, heb gael cyfle i roi adborth.

Fe gawson ni wybodaeth hefyd gan rieni plant mewn lleoliad gofal iechyd, yn canolbwyntio ar eu gwybodaeth am hawl eu plentyn i dderbyn addysg, pa mor fodlon oedden nhw ar y ddarpariaeth addysg a rôl yr ysgol yn ystod arhosiad eu plentyn. Fe wnaethon ni hynny trwy alwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Buon ni'n ymgysylltu ag 14 o weithwyr proffesiynol a 6 o leoliadau gofal iechyd, trwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac arolwg ar-lein. Fe wnaethon ni hefyd anfon arolwg i bob awdurdod lleol yng Nghymru, a derbyn ymatebion gan 17 o awdurdodau lleol. Roedd cwrpas ein prosiect yn canolbwyntio ar ddarparu addysg i gleifion mewnol lle mae hynny'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol (dros 15 diwrnod). Roedden ni am gynnwys cyd-destun cyffredinol, ac felly casglwyd profiadau o ofal cleifion allanol (e.e. uned ddydd) yn ein cyfnod ymchwil cychwynol, yn ogystal ag astudiaethau achos y plant hynny oedd yn derbyn addysg mewn lleoliadau eraill.

Themâu allweddol o'r ymchwil

Gwerth addysg: Beth ddywedodd plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrthym ni

Roedd yr holl blant a phobl ifanc y clywson ni ganddyn nhw yn wir yn gwerthfawrogi'r addysg a'r gweithgareddau roedden nhw'n eu derbyn.

Mae addysg yn cael ei weld fel gweithgaredd y mae'r plant a'r pobl ifanc yn ei fwynhau ac yn edrych ymlaen ato; mae'n eu helpu i deimlo'n 'normal' mewn sefyllfa sydd fel arall yn frawychus neu'n anodd.

Fe wnaeth gymaint o wahaniaeth o ran gwneud i mi deimlo'n 'normal' ar y diwrnodau pan fuon ni'n cael y sesiynau tiwtora gyda'n gilydd

Dyfyniad gan berson ifanc 16 oed oedd yn yr ysbyty am fwy nag 8 wythnos

Roedd gallu cadw i fyny gyda'u gwaith ysgol pan oedden nhw mewn lleoliad gofal iechyd hefyd yn bwysig i'r plant a'r pobl ifanc o ran lleihau lefelau straen.

Mae'n golygu mod i'n cael y gwaith diweddera o'r ysgol brif ffrwd, fel bod llai o straen a phryder ynghylch dychwelyd

O ran gwelliannau i'r ddarpariaeth addysg, y peth amlycaf yn yr ymatebion oedd awydd i gael mwy: mwy o deithiau; mwy o fathemateg; mwy o amser i fynd i'r ysgol; a mwy o athrawon.

Byddai mwy o oriau'n well ar ddialysis. Mae sesiynau dialysis yn ddiflas i blant ifanc. Mae angen mwy nag un awr o ddysgu difyr gydag Isabel [athro ysbyty]. Dyw e ddim yn ddigon o amser.

Dyfyniad gan blentyn 12 oed a fu yn yr ysbyty am fwy nag 8 wythnos

Byddwn i'n hoffi hedfan. Byddwn i'n hoffi cael sesiynau gyda phlant eraill. Byddwn i'n hoffi gweld athrawon bob dydd

Dyfyniad gan blentyn 5-7 oed a fu yn yr ysbyty rhwng 4 ac 8 wythnos

Roedd awydd hefyd i'r addysg mewn lleoliad gofal iechyd barhau ar ôl cyrraedd 16 oed. Gall y grŵp oedran yma o bobl ifanc wynebu aflonyddu sylweddol ar eu haddysg ar adeg pan fyddan nhw'n sefyll arholiadau pwysig (TGAU a Lefel A).

Daeth [athro'r ysbyty] a fi trwy fy mlwyddyn 11 'anghyffredin'! Heb ei hymroddiad hi, dwy ddim yn credu bydden i wedi sefyll TGAU eleni." - Dyfyniad gan berson ifanc 16 oed a fu'n glaf mewnol am fwy na 100 diwrnod.

Dyfyniad gan berson ifanc 16 oed a fu'n glaf mewnol am fwy na 100 diwrnod

Soniodd rhieni a gofalwyr wrthyn ni am yr amser eithriadol o anodd maen nhw'n ei wynebu pan fydd eu plentyn yn sâl ac mewn lleoliad gofal iechyd am gyfnod hir.

Yn achos y rhieni yma, mae'r ffaith bod eu plentyn yn dal i dderbyn addysg yn ystod eu cyfnod mewn lleoliad gofal iechyd yn wirioneddol bwysig o safbwynt lles eu plentyn, ac mae'n un peth yn llai iddyn nhw bryderu amdano.

Mae X yn pryderu llawer ynghylch aros yn yr ysbyty, felly yr un peth mae bob amser wrth ei fodd yn ei gylch, hyd yn oed pan fydd yn sâl yn yr ysbyty, yw cael ei addysg.

Dyfyniad gan riant/ofalwr

Rydych chi [athro yn yr ysbyty] wedi gwneud gwaith mor wych, ac rydyn ni'n meddwl bod y gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig yn union beth sydd eu hangen ar blant a phobl eraill wrth iddyn nhw aros yn yr ysbyty, o bosib am amser hir, i'w helpu i deimlo'n normal mewn rhyw ffordd. Mae'n help mawr i'w hiechyd meddwl ac yn helpu i'w paratoi ar gyfer yr adeg pan fyddan nhw'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd, fel y bydd x ym mis Medi. Mae hi'n teimlo eich bod chi wedi gwneud gwahaniaeth hollbwysig i ba mor hyderus mae hi'n teimlo ynghylch mynd nôl i'r ysgol

Dyfyniad gan ofalwr

Mewn modd tebyg i ymatebion y plant a'r pobl ifanc, byddai rhieni a gofalwyr wrth eu bodd yn gweld mwy o amser yn cael ei roi i addysg pan fydd eu plentyn yn sâl ac mewn lleoliad gofal iechyd. Soniodd rhieni fod eu plant weithiau'n derbyn cyn lleied â dwy sesiwn awr o hyd yr wythnos.

Dim ond 33% o weithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd yn cytuno bod yr addysg a ddarperir yn ddigon i ddiwallu anghenion yr holl blant y maent yn gweithio gyda nhw.

Amrywiadau o ran cyllid a'r oriau o addysg sy'n cael eu darparu

Ar sail y data gwnaethon ni ei gasglu, roedd trefniadau ariannu ar gyfer yr addysg mae plant a phobl ifanc yn ei derbyn mewn lleoliad gofal iechyd yn fater creiddiol.

Dangosodd atebion i'n holiaduron bod nifer yr oriau oedd yn cael eu hariannu'n nodweddiadol fesul wythnos gan yr awdurdod lleol yn amrywio o 5 i 20 o oriau ar draws Cymru. A dim ond 33% o weithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd yn cytuno bod yr addysg sy'n cael ei darparu yn ddigonol i ddiwallu anghenion yr holl blant maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Roedd un gweithiwr proffesiynol yn teimlo mai'r peth pwysicaf oedd yn angenrheidiol i wella addysg mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru oedd 'cytundebau gydag Awdurdodau Addysg Lleol (AALLau), fel nad oes unrhyw blentyn yn colli cyfle oherwydd cecru ynghylch talu am leoedd.'

Dywedodd gweithiwr proffesiynol arall mai un o'r prif heriau cysylltiedig â chyflwyno addysg oedd "staffio i ddiwallu anghenion unigol oherwydd cyllid".

Profiadau Anghyson

Roedd un rhiant y buon ni'n ei chyfweld wedi disgrifio achlysur lle roedd ysgol ei phlentyn wedi gwneud hi'n ymwybodol o fil gaethon nhw yn dilyn sesiwn o ddysgu cafodd ei phlentyn yn ystod arhosiad byr yn yr ysbyty. Rhoddodd hynny nhw o dan straen yn ystod cyfnod oedd eisoes yn peri trallod.

Mewn enghraifft arall o drefniant ariannu oedd ddim yn blentyn-ganolog, eglurodd lleoliad gofal iechyd fod plentyn wedi derbyn peth addysg yn y gwely oherwydd eu bod yn methu mynd lawr i ystafell ddosbarth benodedig y lleoliad. Yna gwrthododd awdurdod lleol y plentyn dalu am yr addysg a gafodd y plentyn, oherwydd bod hynny wedi digwydd tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ar y llaw arall, disgrifiodd ymateb gan un gweithiwr proffesiynol sut roedd trefniant ariannu rhwng y lleoliad a'r awdurdodau lleol cymdogol yn golygu bod pob plentyn, gan gynnwys dysgwyr 0l-16, yn gallu cael mynediad at addysg heb unrhyw drafferthion:

"Ar 0l eu derbyn i'r ward, mae pob person ifanc, beth bynnag yw eu hoed a'u cyfnod addysg, yn mynd i'r ganolfan addysg fel rhan o drefn arferol y ward – mae hynny wedi'i gytuno trwy gytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr awdurdodau addysg lleol".

Yn gyffredinol, amlygodd llawer o weithwyr proffesiynol eraill yr angen am fwy o gyllid, yn arbennig yng nghyswllt addysg ôl-16. Amlygodd gweithwyr proffesiynol eraill yr angen am gyllid i gefnogi adnoddau ychwanegol a thechnoleg a chyfarpar arbenigol.

Dyweddodd gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd eu bod yn gweld anghysondeb yn swm y cyllid sy'n cael ei ddyrannu ar draws lleoliadau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig, gyda rhai lleoliadau gofal iechyd yn cynnig symiau amrywiol o addysg bob dydd.

Ymatebion awdurdodau lleol

Dyweddodd 76% o'r 17 o awdurdodau lleol yn yr arolwg eu bod yn ariannu'r addysg heb hawlio costau yn ôl o ysgol y plentyn.

Dyweddodd yr awdurdodau eraill eu bod yn defnyddio gwahanol dulliau, gan gynnwys: **'cyllideb ar gyfer tiwtora mewn ysbytai sy'n cael ei thalu trwy'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), sy'n gyfrifol am yr holl diwtora'**; a disgrifiodd dau awdurdod system lle telir rhan o'r arian gan yr awdurdod a rhan gan yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn beth bydden nhw'n ei newid am addysg mewn lleoliadau iechyd, awgrymodd un awdurdod lleol y dylai gael ei ariannu fesul gwely gan Lywodraeth Cymru.

Galwodd gweithiwr iechyd proffesiynol hefyd am fodel ariannu fesul gwely, a ddywedodd y byddai'n **'sichau bod staff ar gael ac yn eu lle pan fyddai angen addysg ar y claf'**.

Ariannu – Astudiaethau Achos

Fe glywsom ni sut mae trefniadau ariannu anghyson ar draws Cymru yn creu profiadau addysgol anghyson i blant a phobl ifanc.

Yn eu geiriau eu hunain, mae dau leoliad mewn gwahanol rannau o Gymru yn disgrifio'r addysg maen nhw'n ei chynnig i blant a phobl ifanc.

Coed y Deryn

Coed y Deryn sydd yn darparu addysg yn Ysbysty Plant Arch Noa.

Yma yn Ysbysty Plant Arch Noa yng Nghaerdydd, gwaetha'r modd, does gennym ni ddim cyllideb addysg yn yr ysbysty ar gyfer dysgwyr sy'n byw y tu allan i'n Hawdurdod Lleol ni, felly rydyn ni'n hawlio'r costau yn ôl o'r Awdurdod Lleol perthnasol.

Beth mae hynny'n golygu yn ymarferol yw bod Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn aml yn derbyn bil addysg eu dysgwyr tra'u bod nhw yn yr ysbysty. Yn aml bydd gan ysgol fwy nag un dysgwyr gyda ni, felly gall y goblygiadau ariannol fod yn niweidiol ar adeg sydd eisoes yn heriol i ysgolion yn ariannol!

Mae'r fformiwla ariannu hon hefyd yn cynnwys cyfyngiadau yn yr ystyr na allwn gynnig cefnogaeth addysgu i ddysgwyr sy'n derbyn addysg breifat a'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref. Allwch chi ddechymgu pa effaith byddai'n ei chael ar ddysgwyr a'u teuluoedd i weld un o'u cydgleifion, o bosib yn yr un ciwbigl â nhw, yn derbyn addysg dim ond oherwydd eu bod nhw'n ddigon ffodus i fynychu ysgol Awdurdod Lleol. Mae'n golygu bod dysgwyr yn yr ysbysty yn cael eu hamddifadu o un o egwyddorion Siarter y CU ar Hawliau'r Plentyn — Erthygl 28 (hawli i addysg) "Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg."

Ar hyn o bryd yn Arch Noa mae gennym ni un athro amser llawn (fydd yn codi i 2 athro amser llawn o fis Medi 2023) i weithio gyda dysgwyr y mae eu hoed yn amrywio o 4 oed hyd at 16 ac yn aml 17 oed (os oes ganddyn nhw angen ychwanegol). Beth mae hynny'n ei olygu'n ymarferol yw nad yw llawer o ddysgwyr yn derbyn yr isafswm sy'n ofynnol, sef hyd at un awr o addysgu yn yr ysbysty bob dydd [mae hyn yn cyfeirio at ganllawiau blaenorol Llywodraeth Cymru], er bydd hyn yn dwblu yn Medi 2023 a byddwn ni'n gallu cynnig darpariaeth Cymraeg hefyd. Rwy'n siŵr y cytunwch fod y targed y dylai dysgwyr dderbyn hyd at un awr y dydd yn druenus o annigonol, yn enwedig pan fyddwch chi'n ystyried y gallai fod gan ysgolion ysbytai eraill yn y Deyrnas Unedig hyd at 5+ o staff, gan gynnwys staff ag arbenigeddau a chynorthwyrwyr addysgu.

Nant-y-Bryniau

Cyfleuster addysgol yw Nant-y-Bryniau sy'n darparu addysg a chefnogaeth i'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i Ward Cudyll (Kestrel) Uned Gwasanaeth y Glasoed yng Ngogledd Cymru (NWAS), ac i Barcud (Kite), y Tîm Cymorth Cymunedol Dwys, fel ei gilydd yn haen 4 CAMHS. Mae'r staff addysg yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r ddau dîm; gan gynorthwyo i ddiwallu anghenion cleifion ar draws Gogledd Cymru gyfan, a dderbyniwyd i'r gwasanaethau oherwydd eu hanghenion iechyd meddwl.

Mae Nant-y-Bryniau yn cael ei redeg gan Awdurdod Addysg Lleol Conwy ar ran yr holl awdurdodau unedol ar draws gogledd y wlad, yn ogystal â gogledd Powys. Lleolir y ganolfan mewn cyfleuster a adeiladwyd at y diben yn ymyl NWAS ar diroedd hardd Ysbysty Abergele. Wrth symud i'r safle presennol, 14 mlynedd yn ôl, lluniwyd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng penaethiaid addysg pob awdurdod lleol ibennu'r cyfrifoldebau, y cyllid a'r tâl fyddai'n cael ei godi. Ar ben hynny, pan ffurfiwyd fîm cymunedol y Barcud yn 2014, lluniwyd cytundeb pellach i roi cyfle i bobl ifanc a dderbyniwyd i'r gwasanaeth hwn elwa o ddarpariaeth addysg Nant-y-Bryniau.

Mae pobl ifanc a dderbynnir i ward y Cudyll yn mynychu'r ganolfan addysg am bum awr y dydd yn ystod y tymor, ac os ydyn nhw o dan 16 neu'n dal mewn addysg ar ôl cyrraedd 16 oed, cedwir cysylltiad â'r lleoliad prif ffrwd gyda'r nod o lynu mor agos â phosib at gwricwlwm presennol y person ifanc. Lle mae pobl ifanc dros 16 oed ac wedi gadael byd addysg, bydd y ganolfan yn gweithio gyda'r person ifanc i gytuno ar brofiad addysg personol, perthnasol, sy'n canolbwyntio ar sgiliau er mwyn dychwelyd i ddysgu neu gael mynediad at gyflogaeth, sgiliau bywyd, cynllunio'r camau nesaf a llesiant. Caiff pobl ifanc a dderbynnir i'r Barcud eu cefnogi yn ôl eu hanghenion unigol, gyda rhai'n cael cefnogaeth yn y gymuned yng nghyswllt mynediad at gyflogaeth, coleg neu eu hysgol prif ffrwd, tra bod eraill yn gallu cael mynediad i'r ganolfan addysg hyd at 5 prynhawn yr wythnos.

Mae'r fîm addysg yn cynnwys 3 athro amser llawn, 1 athro rhan amser a 3 chynorthwy-ydd addysgu, gyda chefnogaeth amser llawn ar gyfer gwaith gweinyddol ac arholiadau. Gall y ganolfan ddarparu ar gyfer hyd at 12 o gleifion mewnol amser llawn a 6 chlaf cymunedol rhan amser, gyda gwaith arall i ddiwallu anghenion rhai cleifion Barcud yn y gymuned yn ôl y gofyn.

Amlygodd mwyafrif llethal o'r awdurdodau lleol gyfathrebu fel prif agwedd y byddent am ei gweld yn newid yng nghyswllt addysg mewn lleoliadau gofal iechyd.

Gwaith amlasiantaeth a chyfathrebu

Amlygodd mwyafrif llethal o'r awdurdodau lleol gyfathrebu fel prif agwedd y byddent am ei gweld yn newid yng nghyswllt addysg mewn lleoliadau gofal iechyd.

Roedd y syniadau ar gyfer gwelliant yn cynnwys 'gwell cyfathrebu gan ysgolion yn y lle cyntaf i rybuddio'r awdurdod' bod plentyn yn derbyn triniaeth a bod angen darpariaeth addysgol arny'n nhw, yn ogystal â 'gwell cyfathrebu rhwng lleoliadau gofal iechyd/ysgol a'r awdurdod lleol'.

Awgrymodd un awdurdod 'broses ar gyfer datblygu dealltwriaeth a rennir rhwng awdurdodau lleol a lleoliadau', gan amlygu y gallai hynny greu cyfleoedd 'i adolygu a chyd-greu cynnig addysg mewn lleoliadau cleifion mewnol'.

Dyma rai o'r awgrymiadau eraill:

"Cynllun clir yn ei le gyda iechyd, rhiant, y plentyn, yr ysgol a'r awdurdod lleol, rhywbeth sy'n cael ei gofnodi, ei fonitro a'i adolygu"

"Gwneud awdurdodau lleol yn ymwybodol yn gynt er mwyn galluogi cydweithio agosach, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr hyn sy'n cael ei ddarparu"

Dywedodd un awdurdod lleol:

"Yn aml nid oes rhwydwaith/cysylltiad uniongyrchol gyda lleoliadau iechyd i ystyried cynlluniau gofal o'r fath neu i hwyluso addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS)"

Pontio i'r gymuned

Roedd yr ymatebwyr yn rhoi pwys arbennig ar gyfathrebu wrth drafod pontio gyda'r ddarpariaeth addysg o'r lleoliad gofal iechyd yn ôl i gymuned y plentyn, yn nodweddiadol amgylchedd eu cartref. Gwnaeth rhai gweithwyr proffesiynol sylwadau ar y ffaith nad oedd gwasanaethau'n cael eu cydlynu, a bod angen ffocws ar gyfathrebu rhwng asiantaethau. Un enghraifft a amlygwyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol oedd yr angen am well cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, gan ddweud dylai "Cyfarfodydd Tîm o Gwmpas y Teulu (TAC) ar unwaith i bob dysgwr sydd wedi bod i mewn ers mwy na 4 wythnos".

Roedd 83% o ymatebion Awdurdodau Lleol yn dweud bod ffyrdd o wella prosesau rhyddhau er mwyn sicrhau darpariaeth addysg ddi-dor pan fyddai plentyn yn gadael lleoliad cleifion mewnol.

Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses hon roedd dull cyffredinol o hysbysu ynghylch rhyddhau o leoliad gofal iechyd a gwell cyfathrebu rhwng lleoliadau gofal iechyd, ysgolion a'r awdurdod lleol, er mwyn nodi unrhyw fecanweithiau cefnogi oedd yn angenrheidiol i gefnogi plant i barhau i ymgysylltu â'u haddysg ar ôl cael eu rhyddhau. Amlygodd un awdurdod lleol mai gwybodaeth ryddhau feddygol yn unig bydden nhw'n ei derbyn am blentyn – nid eu hanghenion o ran addysg.

Ymwybyddiaeth bod plentyn yn gymwys i gael y ddarpariaeth

Roedd ein canfyddiadau yn amlgu gwahaniaethau yn sut caiff y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol eu hysbysu ynghylch cymhwysedd plentyn a'r angen am gael mynediad at addysg. Roedd rhai athrawon mewn lleoliadau gofal iechyd yn cael eu hysbysu gan weithwyr meddygol proffesiynol yn eu lleoliad, tra bod eraill yn cael eu hysbysu gan ysgol y plentyn. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol nad oedden nhw'n ymwybodol o system i'r plant yn eu lleoliad gofal iechyd gael mynediad at ddarpariaeth addysg.

O ran awdurdodau lleol, dywedodd rhai iddyn nhw ddod yn ymwybodol o'r angen i blentyn dderbyn addysg mewn lleoliad iechyd wrth gael eu hysbysu gan yr ysgol, a dywedodd eraill eu bod yn dod yn ymwybodol wrth gael eu hysbysu gan y lleoliad gofal iechyd. Dywedodd un awdurdod fod rhieni neu warcheidwaid hefyd wedi'u hysbysu ynghylch yr angen hwn.

Roedd yr atebion yn dangos bod cryn amrywiaeth ar draws Cymru o ran sut mae angen a chymhwysedd plentyn i gael addysg yn cael eu cydnabod ac yn derbyn ymateb.

Dywedodd 81% o'r awdurdodau lleol yn yr arolwg eu bod yn credu y gallai fod gwelliannau i'r broses o nodi pryd mae plentyn yn gymwys i gael darpariaeth addysg mewn lleoliad gofal iechyd.

Dyma rai o'r awgrymiadau:

"System hysbysu syml, orfodol, yn debyg i Fodel *Operation Encompass*, sy'n hysbysu ysgolion/awdurdodau lleol yn amserol ar yr adeg pan gyfyd y sefyllfa."

"Cael hysbysiadau cyn gynted ag y bydd y disgyblion yn yr Ysbyty ac angen cael eu tiwtora"

"Byddai'n fwy buddiol cael gwybodaeth cyn i'r disgyblion gael eu derbyn. Gallen ni roi mwy o gefnogaeth petaen ni'n cael gwybod bod hynny'n opsiwn posib."

Dywedodd un awdurdod mai dim ond wrth dderbyn anfoneb am yr addysg y maen nhw'n cael eu hysbysu:

"Dim ond yn ystod neu wedi'r lleoliad rydyn ni'n cael gwybodaeth. Dydyn ni ddim yn cael hysbysiad cyn derbyn anfoneb. Un elfen o hynny yw bod angen gwella'n systemau mewnol, ond ar hyn o bryd, rydyn ni'n cael gwybod am nifer y sesiynau, yn hytrach na'r oriau, ac ychydig iawn am yr hyn sy'n cael ei ddarparu."

Roedd gwahaniaethau hefyd yn yr atebion gan leoliadau gofal iechyd ynghylch pryd mae plentyn yn gymwys i dderbyn addysg ar ôl hysbysiad:

Dywedodd un lleoliad a atebodd ein harolwg y byddai plentyn yn dod yn gymwys i dderbyn addysg 15 diwrnod ar ôl cael eu derbyn.

Ond dywedodd lleoliadau eraill y byddai plentyn yn cael cynnig addysg ar unwaith, cyhyd â'u bod nhw'n teimlo'n ddigon iach i ddysgu.

Tegwch i bob dysgwr

Dywedodd 93% o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a ymatebodd i'n harolwg fod rhai plant penodol ddim yn cael mynediad addas at addysg pan oedden nhw'n gleifion mewn lleoliad gofal iechyd.

Addysg ôl-16

Roedd yr ymatebion i'n harolygon yn awgrymu mai'r grŵp oedd wedi mynd heibio i oed addysg orfodol (16 a throsodd) oedd yn fwyaf tebygol o golli cyfleoedd addysg mewn lleoliad gofal iechyd. Dangosodd yr ymatebion gan weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd fod rhai pobl ifanc dros oed ysgol gorfodol yn derbyn yr addysg hon, ond nad yw hynny'n wir am eraill.

Er nad oes dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) i blant dros 16, mae'r canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn nodi:

Dysgwyr sy'n hŷn nag oed ysgol gorfodol. Dylai awdurdodau lleol drefnu bod dilyniant addysg i ddysgwyr dros 16, ond o dan 18 oed, lle mae angen i'r dysgwr astudio i gwblhau cymwysterau oherwydd salwch. Lle mae gan y dysgwr ddatganiad o AAA, bydd yr awdurdod lleol yn parhau'n gyfrifol am y dysgwr dan sylw nes eu bod yn 19 oed.

Astudiaeth achos | gwrthod mynediad i berson ifanc 17 oed

Cysylltodd rhiant y mae eu plentyn 17 oed yn glaf mewnol mewn lleoliad gofal iechyd â'n tîm Ymchwiliadau a Chyngor. Pan oedd y plentyn yn 16, roedd modd iddyn nhw gael mynediad i ddarpariaeth addysg oherwydd eu bod o fewn oed ysgol statudol. Ers cael eu pen-blwydd yn 17, maen nhw bellach yn methu cael mynediad at y ddarpariaeth addysg yn y lleoliad gofal iechyd, oherwydd bod adnoddau cyfyngedig yn golygu mai dim ond hyd at 16 oed y cynigir addysg. Mae hynny er bod gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn yn nodi y byddai'r plentyn yn elwa o addysg fel rhan o'u cynllun gofal neu becyn therapiwtig o gefnogaeth.

(Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, Comisiynydd Plant Cymru)

Dywedodd rhai lleoliadau gofal iechyd sydd yn darparu addysg i bobl ifanc ôl-16 nad yw bob amser yn hawdd cael hyd i athrawon arbenigol ar gyfer cymwysterau ôl-16.

Lleol y gallai dysgu ar-lein gynnig ystod ehangach o opsiynau, fel y gwnaeth rhai gweithwyr iechyd proffesiynol.

Cyfeiriwyd hefyd at well cyfathrebu rhwng awdurdod a gofal iechyd fel modd i wella mynediad pobl ifanc at addysg ôl-16 mewn lleoliad gofal iechyd.

Cefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol

Dyweddodd gweithwyr proffesiynol hefyd fod plant ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn gallu colli cyfle oherwydd diffyg adnoddau digonol.

Dyweddodd 35% o'r awdurdodau lleol yn yr arolwg fod heriau wrth ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng nghyswllt addysg mewn lleoliad gofal iechyd.

Roedd yr heriau hynny'n cynnwys cwmpas y dysgu sydd ar gael, y ffaith na dderbynnir hysbysiadau bob amser gan y lleoliad iechyd, neu ddiffyg cyfathrebu i ystyried cynlluniau unigol, diwallu anghenion cymhleth plentyn, a sicrhau adnoddau anabledau dysgu dwys a lluosog (PMLD) ar gyfer dysgwyr hŷn.

Amlygodd ein harolygon hefyd ddiffyg cyfarpar arbenigol i hwyluso addysg i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae angen gwneud addasiadau ar gyfer llawer o blant er mwyn mwyaflu eu cyfranogiad mewn addysg a sicrhau mynediad i'w hawl ddynol i addysg o dan CCUHP. Adroddwyd bod anhawster cyrchu cyfarpar, cyflwyno addysg arbenigol a diwallu anghenion cyfathrebu i gyd yn effeithio ar fynediad plant a phobl ifanc at addysg.

Soniodd un gweithiwr iechyd proffesiynol fod cyfarpar arbenigol yn aml yn effeithio ar yr addysg mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu ei derbyn yn eu lleoliad. Un enghraifft y clywson ni amdani oedd person ifanc oedd yn methu cael mynediad i'r ganolfan addysg ac sy'n defnyddio gliniadur yn y ward i hwyluso mynediad at addysg. Soniodd gweithiwr proffesiynol arall am ddiffyg cyfarpar ar gyfer anghenion cyfathrebu.

Darpariaeth Gymraeg

Adroddodd 42% o Awdurdodau Lleol eu bod wedi cael trafferth darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd lleol. Dywedodd rhai mai'r prinder tiwtoriaid Cymraeg oedd yn gyfrifol am hynny, a dywedodd eraill mai'r rheswm am hynny oedd y ffaith bod y plentyn mewn lleoliad gofal iechyd yn Lloegr.

Mae hyn yn amlygu problem tegwch iaith o ran cael mynediad at addysg tra bod plentyn mewn lleoliad gofal iechyd. Mae Erthygl 30 CCUHP yn dweud bod gan blant yr hawl i ddefnyddio yr iaith maen nhw'n dewis. Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn Sylw Cyffredinol rhif 11: 'er mwyn galluogi'r hawl yma, mae addysg yn iaith y plentyn yn hanfodol'.

Astudiaeth achos | Darpariaeth iaith Gymraeg

Cysylltodd rhiant â ni wedi i'w plentyn gael eu derbyn i'r ysbyty ym mis Hydref 2021, yn codi mater mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r plentyn yn mynychu ysgol gynradd Gymraeg ond roedd yn wynebu wythnosau, ac o bosib misoedd yn yr ysbyty oherwydd anghenion meddygol, heb fynediad at addysg Gymraeg. Bu'n rhaid i'r ysbyty ofyn am athro cyfrwng Cymraeg gan yr awdurdod lleol, ac wedi hynny cytunwyd ar 5 awr o diwtora, i'w cyflwyno yn Gymraeg. Ymddengys bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud fesul achos, a rhannodd y rhiant, er eu bod yn falch bod y mater wedi'i ddatrys iddyn nhw, eu bod nhw ddim yn deall pam nad oedd y ddarpariaeth eisoes yn ei lle o fewn yr awdurdod lleol.

(Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, Comisiynydd Plant Cymru)

Amgylchedd dysgu

Er bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn amlygu heriau anoche cydbwysu anghenion addysgol plant â'u hanghenion iechyd a gofal, roedd heriau hefyd yn gysylltiedig â'r amgylchedd dysgu ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn yn holi gweithwyr iechyd proffesiynol beth fyddai'n gwella'r ddarpariaeth addysgol yn eu lleoliad nhw, cafwyd atebion penodol ynghylch safon yr amgylchedd dysgu.

Roedd un ymatebydd am gael "lle corfforol i ddysgu" ac amlygodd un arall yr angen am fwy o gyllid "i wella cyfleusterau a chyfarpar".

Dyweddwyd bod yr amgylchedd dysgu yn effeithio ar blant penodol mewn gwahanol ffordd. Fe glywson ni y gall fod yn anodd ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) mewn lleoliad ystafell ddosbarth, a byddai angen mwy o gyfleusterau sy'n cefnogi dysgu galwedigaethol:

Mae gennym ni rai pobl ifanc yn yr ysbyty sydd ddim mewn addysg na chyflogaeth wrth gyrraedd – rydyn ni'n gwneud ein gorau, ond mae'n anodd darparu ar gyfer eu hanghenion gan nad yw addysg yn orfodol hyd at 18 oed – mae'n anodd ymgysylltu â nhw mewn ystafell ddosbarth – byddai angen mwy o gyfleusterau galwedigaethol a staff.

Soniodd rhai gweithwyr proffesiynol nad oedd lle corfforol heblaw ochr y gwely i gynnal gweithgareddau addysgol, a bod hynny'n gallu cael effaith negyddol:

Dyw cleifion sydd yma am gyfnod hir ddim yn cael cyfleoedd digonol i gadw i fyny gyda'u cwricwlwm. Mae'r diffyg lle corfforol i ddysgu heblaw am wrth y gwelyau yn hybu agwedd 'Rydw i'n dost, felly does dim rhaid i mi ymgysylltu', sy'n lleihau eu huchelgais i ddysgu, ac mae hynny'n ddrwg i'w llesiant.

Amlygodd ymatebwyr fanteision lle y tu allan i'r ward ei hun mewn rhai achosion, ond ni all rhai gwasanaethau gynig yr amgylchedd yma i blant a phobl ifanc.

Addysg gartref oherwydd anghenion gofal iechyd

Er nad dyma ffocws yr adroddiad hwn, rydyn ni'n ymwybodol bod heriau hefyd i blant sy'n derbyn addysg gartref oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Mae un astudiaeth achos yn amlygu pwysigrwydd ystyried y plant hynny y mae angen iddyn nhw dderbyn addysg gartref oherwydd eu hanghenion iechyd:

Astudiaeth Achos | Tiwtora gartref

Cysylltwyd â ni mewn perthynas â pherson ifanc sydd wedi bod yn cael eu tiwtora gartref oherwydd eu bod yn methu cael mynediad i adeilad ffisegol oherwydd anghenion iechyd. Bu hyn yn wir ers 16 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, dyrannwyd tair awr yr wythnos yn unig o diwtora gartref i'r person ifanc, a chadarnhaodd y rheolwr EOTAS fod hynny'n gywir ac yn unol â pholisiau'r awdurdod lleol.

(Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor Comisiynydd Plant Cymru)

Argymhellion

Argynhelliad allweddol

1. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu dyletswyddau cyfreithiol awdurdodau lleol i ddarparu addysg amser llawn i blant sydd, o achos salwch, fel arall na fyddai'n derbyn addysg addas. Mae angen i'r canllaw fod yn glir bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant Cymru yn derbyn yr un hawliau cyfreithiol â phlant ar draws y DU.

Argymhellion pellach

2. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio y canllaw ar gyfer darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), i gynnwys disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn hwyluso cyflwyno cynnig sy'n cyfateb i addysg amser llawn i blant sy'n derbyn gofal iechyd parhaus neu aciwt, ac eithrio lle nad yw hynny er lles pennaf y plentyn..
3. Rydw i'n argymhell sicrhau bod dyletswydd ar arweinwyr EOTAS ym mhob awdurdod lleol i fynd ati fel mater o drefn i gasglu barn plant ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn.
4. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau ariannu cyfredol ar gyfer addysg mewn lleoliadau gofal iechyd ar draws pob Awdurdod Lleol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i adeiladu achos arfer gorau fydd yn golygu bod modd gwreiddio dull cyffredinol o ymdrin â chyllido ar draws Cymru.
5. Rwy'n argymhell bod cynlluniau pontio ac ailintegreiddio yn cael eu cynnwys mewn canllawiau i hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng addysg, iechyd ac awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn lleoliad gofal iechyd, ac a fydd yn dychwelyd i'w trefniadau addysg blaenorol. Rhaid i'r cynlluniau.
6. Rwy'n argymhell bod y canllaw yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a sicrhau dilyniant ym myd addysg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd, ym mha leoliad bynnag y caiff yr addysg ei darparu.
7. Rwy'n argymhell bod y fframwaith Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed mynediad i ddarpariaeth addysg pan fyddan nhw'n gleifion mewnol mewn lleoliad gofal iechyd.
8. Rwy'n argymhell bod asesiad effaith integredig (gan gynnwys asesiad effaith ar hawliau plant) yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canllawiau, gan gynnwys anghenion addysg plant anabl a phlant sydd eisiau derbyn addysg ôl-16.
9. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau i alluogi plant a phobl ifanc i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg mewn lleoliad gofal iechyd. Dylid cynnwys hyn mewn fframweithiau comisiynu.
10. Rwy'n argymhell bod y canllawiau yn cael eu diweddarau i ystyried yn benodol anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn ysbyty neu leoliad gofal iechyd.

Argymhelliad 1

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu dyletswyddau cyfreithiol awdurdodau lleol i ddarparu addysg amser llawn i blant sydd, o achos salwch, fel arall na fyddai'n derbyn addysg addas. Mae angen i'r canllaw fod yn glir bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant Cymru yn derbyn yr un hawliau cyfreithiol â phlant ar draws y DU.

Argymhellion 2 a 3

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio y canllaw ar gyfer darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), i gynnwys disgwiliad y bydd awdurdodau lleol yn hwyluso cyflwyno cynnig sy'n cyfateb i addysg amser llawn i blant sy'n derbyn gofal iechyd parhaus neu aciwt, ac eithrio lle nad yw hynny er lles pennaf y plentyn.

Rydw i'n argymhell sicrhau bod dyletswydd ar arweinwyr EOTAS ym mhob awdurdod.

Neges glir a gafwyd gan y plant, y bobl ifanc, y rhieni a'r gofalwyr a fu'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil yma yw y bydden nhw'n hoffi sicrhau mwy o addysg i blant sydd mewn lleoliad gofal iechyd. Mae canfyddiadau ein gwaith ymchwil hefyd yn dangos nad yw addysg i blant ag anghenion gofal iechyd yng Nghymru yn cael ei hystyried yn rhaglen addysg amser llawn. Dywedodd 7 o'r 17 awdurdod lleol a gwblhaodd ein harolwg eu bod yn nodweddiadol yn ariannu uchafswm darpariaeth o 5 awr yr wythnos, sy'n adlewyrchu canllawiau gan Lywodraeth Cymru nad ydynt bellach mewn grym. Weithiau roedd yr hyn a gynigid yn llai na 5 awr.

Mewn achosion lle nad yw cynnig sy'n cyfateb i amser llawn yn briodol, rhaid rhesymoli hynny yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol plentyn (CGIUP) neu eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU), a thrafod hynny gyda'r plentyn, y rhiant a'r gwarcheidwad, eu darparwr addysgol arferol a'u lleoliad gofal iechyd. Rydym yn pryderu, dydy plant yn aml ddim yn cael cyfrannu mewn i'r addysg meint yn ei dderbyn ac os ydy'n addas i'w anghenion. Dim ond 1 allan o'r 17 awdurdod lleol wnaeth gwblhau ein harolwg dywedodd eu bod nhw bob tro'n casglu safbwyntiau plant am yr addysg maen yn ei dderbyn. Ar hyn o bryd, mae'r canllaw Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd ond yn nodi dylai CDU cael ei drafod gyda'r plentyn a'r rhieni/ gwarchodwyr.

Nid yw canllawiau 2017 yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch faint o ddarpariaeth addysg sy'n gyfateb i raglen addysg llawn i blant a phobl ifanc mewn lleoliad gofal iechyd, ac nid yw chwaith yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y mathau o weithgareddau a fyddai dan sylw. Nid yw'n cynnwys gofynion y cwricwlwm newydd, nac yn adlewyrchu newidiadau 2021 er mwyn diffinio beth yw 'addysg addas' i blant sydd mewn lleoliad gofal iechyd, gartref, neu sy'n gleifion mewnol mewn lleoliad gofal iechyd arall oherwydd anghenion gofal iechyd.

Mae ein hastudiaeth achos yn cydnabod effaith canllawiau statudol aneglur ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg gartref oherwydd anghenion iechyd. Mae'n rhaid sicrhau gwell cysylltiad rhwng canllawiau EOTAS a'r canllawiau statudol, Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, i sicrhau bod y grŵp yma o blant a phobl ifanc yn cael mynediad i'w hawl i addysg.

Argymhelliad 4

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau ariannu cyfredol ar gyfer addysg mewn lleoliadau gofal iechyd ar draws pob Awdurdod Lleol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i adeiladu achos arfer gorau fydd yn golygu bod modd gwreiddio dull cyffredinol o ymdrin â chyllido ar draws Cymru.

Mae ein hadroddiad yn amlygu'r anghysondeb clir o ran trefniadau ariannol ar gyfer yr addysg mae plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd yn ei derbyn. Adlewyrchir hynny gan awdurdodau lleol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac athrawon mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r trefniadau ariannu heriol yn amlwg wedi effeithio ar blant, rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag ysgolion.

Rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'u gwaith y cyfeiriwyd ato eisoes i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynhyrchu fframweithiau comisiynu ar gyfer addysg plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylai'r fframweithiau hyn fod wedi'u seilio ar dystiolaeth: mae ein hadroddiad yn cynnwys enghreifftiau arfer da lle mae trefniadau cyllido wedi arwain at gyflwyno addysg i blant a phobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol. Dylid cydnabod y rhain ac enghreifftiau eraill er mwyn creu trefniadau cyllido pragmataidd. Un enghariff nodwyd gan ein data oedd treniant cyllid am bob gwely.

Argymhellion 5 a 6

Rwy'n argymhell bod cynlluniau pontio ac ailintegreiddio yn cael eu cynnwys mewn canllawiau i hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng addysg, iechyd ac awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn lleoliad gofal iechyd, ac a fydd yn dychwelyd i'w trefniadau addysg blaenorol. Rhaid i'r cynlluniau.

Rwy'n argymhell bod y canllaw yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a sicrhau dilyniant ym myd addysg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd, ym mha lleoliad bynnag y caiff yr addysg ei darparu.

Ar hyd y broses, o'r hysbysu i'r rhyddhau, a phontio'n ôl i drefniadau blaenorol, amlygwyd heriau ynghylch cyfathrebu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a lleoliadau gofal iechyd. Mae ein data yn amlygu gwahanol brosesau hysbysu, ynghyd â dryswch ynghylch sut a phryd y nodir bod angen darpariaeth addysg ar blant. Cafwyd bod cynllunio rhyddhau yn fater allweddol i wasanaethau, ac mae angen llwybrau cliriach ar gyfer hysbysu a chynllunio er mwyn sicrhau nad oes bylchau diangen yn addysg plentyn neu berson ifanc. Rhaid symud tuag at ddull gweithredu systemau cyfan sy'n rhoi'r plentyn neu'r person ifanc yng nghanol y ddarpariaeth addysg, beth bynnag yw eu hanghenion o ran gofal iechyd neu eu lleoliad. Rhaid i wasanaethau weithio mewn partneriaeth, gan gydnabod y cryfderau gallan nhw eu cynnig i blentyn o ran eu haddysg.

Argymhellion 7, 8 a 9

Rwy'n argymhell bod y fframwaith Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed mynediad i ddarpariaeth addysg pan fyddan nhw'n gleifion mewnol mewn lleoliad gofal iechyd.

Rwy'n argymhell bod asesiad effaith integredig (gan gynnwys asesiad effaith ar hawliau plant) yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canllawiau, gan gynnwys anghenion addysg plant anabl a phlant sydd eisiau derbyn addysg ôl-16.

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau i alluogi plant a phobl ifanc i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg mewn lleoliad gofal iechyd. Dylid cynnwys hyn mewn unrhyw fframweithiau comisiynu.

O dan CCUHP, mae gan bob plentyn o dan 18 oed hawl i dderbyn addysg lawn. Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos enghreifftiau o sut mae model ariannu effeithiol yn golygu bod modd i bob plentyn o dan 18 oed gael mynediad at addysg lawn mewn lleoliad gofal iechyd. Rydym ni hefyd wedi gweld enghreifftiau o fodolau ariannu llai effeithiol, sy'n golygu nad yw'r cynnig hwn ar gael i ddysgwyr ôl-16. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod tegwch ar draws Cymru, er mwyn i bob person ifanc o dan 18 oed fedru cael mynediad i'w hawl ddynol i addysg. Rydym yn ymwybodol bod colli cysylltiad ag addysg yn gallu effeithio canlyniadau iechyd, cymdeithasol ac addysgiadol plentyn. Felly, mae hyn yn fater o decgwch sydd angen daelltwrriaeth a'l herio gan yr holl asiantaithau sydd yn rhan o addysg plentyn.

Bydd asesiad effaith integredig yn gam pwysig wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu'r canllawiau statudol ynghylch y ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd. Er nad darpariaeth ôl-16 fu ffocws yr adroddiad hwn, dangosodd ein data gymaint roedd y cynnig yn amrywio ar draws Cymru. Ni ddylai mynediad pobl ifanc amrywio yn ôl lleoliad. Rhaid i'r canllawiau hefyd gydnabod y sefyllfa o ran cynnig cymwysterau i bobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n ymgymryd â chymwysterau'n hwyrach oherwydd bod anghenion iechyd wedi effeithio ar eu haddysg.

Cododd ein hastudiaethau achos a'n data arolwg bryderon ynghylch yr addysg Gymraeg a gynigir yng Nghymru i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn addysg mewn lleoliad gofal iechyd. Rhaid ymdrin â hyn trwy ehangu'r gweithlu, ond hefyd trwy ddefnyddio cefnogaeth allanol a thechnoleg i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w haddysg yn Gymraeg. Rhaid i Fil Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, sydd ar ddod, adlewyrchu lleoliadau amgen yn ogystal ag ysgolion a gynhelir, er mwyn sicrhau mynediad at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 10

Rwy'n argymhell bod y canllawiau yn cael eu diweddarau i ystyried yn benodol anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn ysbyty neu leoliad gofal iechyd.

Yng Nghymru dylai Cynllun Datblygu Unigol (CDU) nodi'r gefnogaeth mae ar blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol ei hangen yn yr ysgol o dan Ddeddf ADY a Thribiwnlys Addysg (2018). Mae'r Cōd ADY yn datgan bod y dyletswyddau o dan y Ddeddf yr un mor berthnasol i blentyn ag anghenion gofal iechyd, ond y gellir adolygu CDU sydd eisoes yn bodoli, yn dibynnu ar y cyd-destun. O dan y canllaw Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd (2017), dylai plant a phobl ifanc mewn ysbytai gael Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU) os bydd angen un arnyn nhw. Dylai'r rhain 'grynhai gwybodaeth allweddol a'r camau sy'n ofynnol i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol', a dylen nhw gael eu llenwi gan y dysgwr, eu rhieni ac asiantaethau perthnasol ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Dylai'r CDU a'r CGIU sydd eisoes yn bodoli gael eu hystyried gan yr awdurdod lleol, a dylid gwneud trefniadau ynghylch sut i gyflawni'r anghenion hyn.

Mae ein hadroddiad yn dangos yr anhawster roedd rhai darparwyr addysg yn ei wynebu wrth ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd o ran eu haddysg. Roedd diffyg cyllid, cyfarpar arbenigol a staffio i gyd yn ffactorau oedd yn effeithio ar hyn. Rhaid ystyried gofodau ffisegol, y gweithlu a chyfarpar arbenigol er mwyn cefnogi'r holl blant a phobl ifanc mewn lleoliad gofal iechyd i dderbyn yr addysg mae ganddyn nhw hawl iddi. Mae dysgu â chymorth technoleg yn un elfen o hyn, ond mae angen asesiad ehangach o angen. Bydd rhoi ystyriaeth i anabled mewn asesiad effaith integredig yn gam cynnar pwysig yn y gwaith hwn.

Atodiad: ymarfer ar draws Ewrop

Y cyd-destun Ewropeaidd ehangach

Rydym ni wedi canfod bod ein cymheiriaid yn Ewrop (Comisiynwyr Plant neu Ombwdsmyr) yn amlygu rhai dulliau cadarnhaol o ymdrin â darpariaeth addysg mewn ysbytai a allai ysbrydoli canllawiau arfer gorau yng Nghymru i'r dyfodol.

Iwerddon

Buon ni'n siarad â gweithwyr proffesiynol perthnasol yn Nulyn ynghylch eu darpariaeth addysg leol i blant oedd yng ngofal ysbyty. Fe wnaethon nhw esbonio'r gwaith oedd yn digwydd ar gyfer ysbyty newydd a fydd yn cynnwys lle penodedig ar bob ward ar gyfer athrawon ysbyty. Bydd hynny'n cefnogi'r gallu i blant a phobl ifanc gael mynediad i'w haddysg yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.

Maen nhw'n aelod o HOPE (Hospital Organisation of Pedagogues in Europe), sy'n gosod safonau ar gyfer addysg i blant a phobl ifanc yn yr ysbyty.

Yr Iseldiroedd: ymgynghorwyr rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion a theuluoedd

Yn yr Iseldiroedd mae dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu addysg i blant ag anghenion gofal iechyd a chyflawnir hynny trwy rwydwaith o ymgynghorwyr sy'n dod o'r ymgynghoriaethau addysg rhanbarthol a chyfleusterau addysg canolfannau meddygol prifysgolion. Sefydlwyd rhwydwaith Ziezon yn 2000 i weithwyr proffesiynol rannu eu gwybodaeth a'u profiad a chydweithio'n effeithiol ac effeithlon. Y nod cyffredin yw darparu'r gefnogaeth addysgol orau posib i ddisgyblion a'u hathrawon pan fydd disgybl yn delio â salwch cronig. Bydd yr ysgol lle mae'r plentyn wedi'u cofrestru yn ymgysylltu ag ymgynghorydd cefnogi addysg o Ziezon, a bydd yr ymgynghorydd dan sylw yn gweithio gyda'r ysgol, y plentyn a'r teulu i greu cynllun addysg. Y nod yw lleiafu'r ymyrraeth ag addysg a sicrhau bod plant yn parhau i ymwneud â'u dosbarth ac mewn cysylltiad â'u hathrawon, ar yr un pryd â darparu arbenigedd penodol i anghenion gofal iechyd y plentyn.

Gwlad Belg Ffleminaidd: cyllid ychwanegol i ysgolion sy'n cael eu chwyddo gan rwydweithiau gwirfoddol

Mae gan blant mewn addysg cyn y cynradd, gynradd neu uwchradd hawl i dderbyn cyfarwyddyd unigol gartref gan athro o'u hysgol arferol os ydyn nhw'n sâl, a hynny am 4 cyfnod gwrs yr wythnos. Gall hyn gychwyn wedi i'r myfyriwr fod yn absennol o'r ysgol am 3 wythnos oherwydd y salwch, neu gydag anghenion gofal iechyd cronig, a gall hyn gychwyn pan fydd y myfyriwr yn absennol am 9 hanner diwrnod o'r ysgol. Os yw'r plentyn yn glaf mewn ysbyty sy'n cynnwys ysgol, bydd hynny'n cael ei ddarparu gan staff yr ysgol honno, yn yr ysbyty neu gartref. Fel arall, caiff ei ddarparu gan ysgol y plentyn, fydd yn derbyn cyllid ychwanegol i drefnu'r tiwtora. Os bydd angen, gall yr ysgol benodi athrawon ychwanegol i ddarparu hyn â'u cyllid ychwanegol. Cefnogir hyn hefyd gan y sector gwirfoddol: mae 'Ysgol a Ziekzijn' (ysgol a bod yn sâl) yn rhwydwaith o sefydliadau annibynnol nid-er-elw sy'n darparu athrawon a gyflogir ar sail wirfoddol yn diwtoriaid i blant rhwng 5 ac 18 oed sy'n methu mynd i'r ysgol neu sy'n absennol yn rheolaidd oherwydd anghenion gofal iechyd. Sefydliad arall gwirfoddol yw Bednet, corff nid-er-elw Ffleminaidd (a ariannir yn rhannol gan Lywodraeth Fflandrys) ac sy'n hwyluso addysg gydamserol ar y rhynggrwyd i blant sy'n methu mynd i'r ysgol. Mae Bednet yn darparu cyfarpar TG i ysgol arferol y myfyriwr a'r myfyriwr gartref, fel bod modd i'r myfyriwr ddilyn gweithgareddau dosbarthiadau a gwersi ar-lein pan fydd gartref, mewn ysbyty neu mewn canolfan gofal iechyd breswyl. .

Croatia: ysgolion cynradd yn cynnig cefnogaeth, ond bylchau i bobl ifanc hŷn

Mae Ombwdsmon Plant Croatia yn adrodd bod ysgolion cynradd sy'n agos at ysbyty neu ddarpariaeth gofal iechyd yn trefnu gwersi i'r plant sy'n gleifion, a bod hynny'n gweithio'n dda i blant oed cynradd. Fodd bynnag, mae bylchau i blant oed uwchradd, ac mae'r Ombwdsmon yn argymhell gwelliannau i blant hŷn, gan awgrymu, 'Rydyn ni'n credu y bydd y profiad o ddysgu ar-lein yn ystod pandemig Covid-19 yn helpu i oresgyn y rhwystrau, a byddwn ni'n sicr yn mynnu datrys yr anawsterau.'

Norwy: cefnogaeth ychwanegol ar lefel yr awdurdod i blant sy'n mynychu ymweliadau dydd rheolaidd

Yn Norwy mae'r dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau addysg pan fydd plentyn yn sâl yn berthnasol i'r sir lle mae'r plentyn yn byw. Gall hyn gychwyn ar unrhyw adeg pan na all y plentyn gael mynediad i'w hysgol arferol, ond lle nad yw'n ddisgwyliedig am arhosiad byr untro o rai dyddiau. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn cychwyn pan fydd yr arhosiad yn hwy nag ambell ddiwrnod, neu pan fydd yr ymweliadau'n fyr ond yn fynych. Yn yr achosion hyn, mae'r ddyletswydd hon hefyd yn cynnwys cleifion diwrnod a chleifion allanol, ac yn yr achosion hynny, dylai'r awdurdod lleol lunio cynllun gydag ysgol gartref y plentyn. Mae angen rhoi sylw i bob achos yn unigol hefyd gan glinigydd os yw plentyn yn rhy sâl i gael mynediad at addysg. Y rhagdybiaeth yw y bydd pob plentyn yn ymgysylltu ag addysg oni bai eu bod yn amlwg yn methu gwneud neu os bydd angen i'w clinigydd ysgrifennu datganiad yn nodi hynny. Ymddengys bod addysg yn cael ei gweld fel rhan o gefnogaeth iechyd gyfannol y plentyn. Mae modd sicrhau eithriadau i'r cwricwlwm, ond mae'r rhain yn anghyffredin, ac mae angen i'r rhieni roi caniatâd. Os gwneir eithriad, mae gan y myfyriwr hawl i gwblhau hwn yn ddiweddarach ar gais.